Y berthynas rhwng Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod y daflen ffeithiau hon yw darparu gwybodaeth i gyrff cyhoeddus am y cyfleoedd a'r berthynas rhwng Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Beth yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014?

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol i drawsnewid y ffordd y caiff anghenion gofal a chymorth pobl ac anghenion cymorth gofalwyr eu diwallu ac i sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn gynaliadwy.

Wrth ymgymryd â swyddogaethau o dan y Ddeddf, rhaid i bawb geisio hyrwyddo llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae'r Ddeddf yn hyrwyddo annibyniaeth pobl drwy ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr ystyried safbwyntiau unigol pobl, a'u cynorthwyo i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Bydd y Ddeddf yn hyrwyddo cydraddoldeb, yn gwella ansawdd gwasanaethau ac yn cynyddu mynediad at yr wybodaeth y mae pobl yn ei derbyn. Bydd hefyd yn hyrwyddo ffocws o'r newydd ar atal ac ymyrraeth gynnar.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gael yn:
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

Mae rhagor o wybodaeth am y Ddeddf ar gael ar Hyb Gwybodaeth a Dysgu Cyngor Gofal Cymru, *Deall y Ddeddf*, sydd ar gael yn:
http://www.cgcymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/?force=2

Beth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ofynnol i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn adran 6 o'r Ddeddf ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn unol â'r diffiniad yn adran 2 o'r Ddeddf. Mae'n rhaid i gamau gweithredu corff cyhoeddus wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy gynnwys gosod a chyhoeddi amcanion llesiant sy'n cael eu cynllunio i sicrhau bod pob corff cyhoeddus yn cyfrannu i'r eithaf at gyflawni'r saith nod llesiant a nodir yn y Ddeddf. Mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus a restrir yn adran 6 o'r Ddeddf gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion llesiant sy'n berthnasol iddynt, a thrwy wneud hynny weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

Mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan osod dyletswydd gyfunol ar sefydliadau penodol i gyfrannu ar y cyd at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal leol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gael yn:
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/pdfs/anaw_20150002_we.pdf

Mae canllawiau o dan y Ddeddf i'w gweld yn:

http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/national-indicators/?lang=cy

http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/statutory-guidance/?lang=cy

Sut maen nhw'n cyfuno i wneud Cymru yn lle gwell?

Mae llesiant yr unigolyn yn rhan allweddol o'r cysyniad ehangach o lesiant a ddefnyddir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n cwmpasu llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu ar gyfer set o nodau llesiant integredig i Gymru. Yn ogystal â nod llesiant penodol o'r enw 'Cymru iachach',sy'n disgrifio cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl, ceir cysylltiadau cryf â dyheadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn nodau eraill fel 'Cymru sy'n fwy cyfartal' a 'Chymru o gymunedau cydlynus'.

Wrth weithio i gyflawni'r nodau hyn, mae'n ofynnol i'r holl gyrff cyhoeddus y mae'r ddyletswydd llesiant yn berthnasol iddynt ymgymryd â datblygu cynaliadwy ac, i'r perwyl hwn, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn pennu egwyddor datblygu cynaliadwy. Yn gyffredinol, mae'r ddwy Ddeddf yn rhoi pwyslais ar atal, cydweithio, integreiddio, cynnwys a mabwysiadu dull gweithredu hirdymor ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Sut allan nhw gydweithio yn ymarferol?

Mae'r ddwy Ddeddf hefyd yn pennu disgwyliadau a gofynion i gyrff cyhoeddus gydweithio i wella canlyniadau i bobl: gan gydnabod bod anghenion unigolion, teuluoedd a chymunedau yn cael eu diwallu gan fwy nag un sefydliad.

Asesu llesiant yr ardal

Mae adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynnal asesiad ar y cyd o anghenion gofal a chymorth ac anghenion cymorth gofalwyr mewn ardal awdurdod lleol. Bydd rheoliadau o dan adran 166 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn sefydlu trefniadau partneriaeth rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r holl awdurdodau lleol yn yr ardal, fel bod modd llunio adroddiad ***asesiad poblogaeth*** cyfunol ynglŷn ag ôl troed y Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae *Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015* o dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gael yn:
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1367/pdfs/wsi_20151367_mi.pdf

Mae *Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015* o dan adran 166 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gael yn:
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1495/pdfs/wsi_20151495_mi.pdf

Mae Pennod 2 o'r Cod Ymarfer mewn perthynas â Rhan 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi'r gofynion hyn yn fanylach. Mae'r Cod ar gael yn:
http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/code-of-practice/?skip=1&lang=cy

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi ***asesiad o lesiant lleol*** ar gyfer ardal yr awdurdod lleol. Mae'r 'asesiad poblogaeth' y mae'n ofynnol ei gwblhau o dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn un o nifer o adolygiadau ac asesiadau statudol y mae'n rhaid i'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus eu hystyried wrth baratoi ei asesiad. Bydd yn ategu amrywiaeth o dystiolaeth yn ymwneud â llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Yn ogystal ag ystyried llesiant cyffredinol yr ardal, bydd angen i'r asesiad o lesiant lleol y mae'n ofynnol i fyrddau gwasanaethau lleol ei gwblhau edrych yn benodol ar lesiant *pobl* yn yr ardal. Mae pobl y gall fod angen gofal a chymorth arnynt, neu bobl sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal a chymorth, yn cael eu nodi fel un categori o bobl y gall bwrdd ddymuno ei gynnwys yn ei ddadansoddiad.

Mae angen cwblhau'r asesiad poblogaeth cyntaf erbyn mis Ebrill 2017, a bydd angen llunio'r asesiad cyntaf o lesiant erbyn mis Mai 2017. Mae hyn yn golygu bod modd casglu tystiolaeth unwaith a'i dadansoddi at y ddau ddiben. Byddai casglu'r dystiolaeth hon ddwywaith yn wrthgynhyrchiol ac yn dyblygu'r broses.

Gweithio mewn partneriaeth

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu sefydlu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar lefel ardal Bwrdd Iechyd Lleol i hwyluso'r gwaith o integreiddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac er mwyn cynllunio a sicrhau darpariaeth gwasanaethau gofal a chymorth integredig ac arloesol i ddiwallu anghenion pobl mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth. Byddant mewn sefyllfa ddelfrydol i sicrhau dulliau gofal a chymorth darbodus.

Mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol flaenoriaethu gwaith integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â:

- Phobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor gan gynnwys dementia.
- Pobl ag anableddau dysgu.
- Gofalwyr gan gynnwys gofalwyr ifanc.
- Integreiddio gwasanaethau plant.

Bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod pob partner yn cydweithio yn effeithiol i wella canlyniadau i bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth a gofalwyr sydd ag anghenion cymorth yn yr ardal leol. Bydd angen iddynt sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau yn cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl i hwyluso hyn. Bydd dull integredig o gomisiynu a darparu gwasanaethau yn helpu'r awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol i gael mwy o ddylanwad ar natur a darpariaeth gwasanaethau.

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cael eu sefydlu o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cyfarfod ar lefel ardal awdurdod lleol, a byddant yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid (gan gynnwys yr Awdurdodau Tân ac Achub, Cyfoeth Naturiol Cymru a, gobeithio, yr heddlu a rhai mathau o ddarparwyr gwasanaeth prawf). Byddant yn edrych y tu hwnt i lesiant unigol ac yn ystyried llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ehangach yr ardal mewn ffordd strategol.

Byddant yn nodi nifer fach o flaenoriaethau lleol ar gyfer camau gweithredu ar y cyd ledled yr ardal, a allai gynnwys materion gofal a chymorth neu beidio.

Cydnabyddir, a rhagwelir, y bydd y 2 fwrdd yn ategu ei gilydd ac nid yn gweithio ar wahân – gan ddatblygu meysydd diddordeb cyffredin.

Cynllunio mewn ymateb i'r asesiadau

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn llunio ***cynllun llesiant lleol*** sy'n pennu amcanion lleol (er mwyn ceisio cyfrannu cymaint â phosibl at y nodau llesiant) ac yn nodi'r camau y maent yn bwriadu eu rhoi ar waith i gyflawni'r amcanion hyn. Bydd y byrddau yn nodi'r amcanion mewn perthynas â'r materion a godwyd wrth asesu llesiant lleol.

O dan adran 14A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol sydd wedi cwblhau asesiad poblogaeth ar y cyd o dan adran 14 o'r Ddeddf baratoi a chyhoeddi ***cynllun ardal/cyd-gynllun ardal sy'n nodi sut y maent yn bwriadu ymateb i'r asesiad***. Byddai modd, a byddai'n ddymunol, cyhoeddi'r cynllun hwn drwy ei gynnwys mewn cynllun llesiant lleol, ond byddai modd hefyd i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gyhoeddi cynllun ar y cyd; i ddau awdurdod lleol baratoi a chyhoeddi cynllun ar y cyd; neu i bob awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol gyhoeddi cynllun eu hunain. Mae rheoliadau a chanllawiau yn cael eu paratoi ar hyn o bryd sy'n argymell yn gryf y dylid cynhyrchu cyd-gynllun ardal rhwng yr awdurdodau lleol mewn ardal Bwrdd Iechyd Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol ei hun. Byddai'n ddilyniant naturiol o'r polisi y mae *Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015* yn deddfu ar ei gyfer sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiadau poblogaeth ar y cyd fod deddfu yn yr un modd ar gyfer manylion y cynlluniau ardal yn deillio o'r adroddiadau asesiad poblogaeth.